

Ein parodrwydd ni, ei nerth ef

“Amlygwch yn eich plith eich hunain yr agwedd meddwl honno sydd, yn wir, yn eiddo i chwi yng Nghrist Iesu.” (adn. 5)

Beth am ddarllen Philipiaid 2:5–11 ac yna myfyrio

Mae'r darlun yma o Grist mor rhyfeddol fel ei bod yn anhygoel bod Paul yn ei godi o flaen ein llygaid fel model o ymddygiad Crist-debyg y dylen ni ei efelychu. Mae'r emyn godidog yma i'r Crist gostyngedig a dyrchafedig yn gymaint o ddatliad o iachawdwriaeth fel y gallem ni golli pwrpas Paul yn ei ddyfynnu. Mae Paul yn trio mynd i'r afael â'r ymraniad yn yr eglwys yn Philipi sy'n cael ei achosi gan falchder. I ddelio â'r ymraniad, mae'n annog ei gyfeillion, y Philipiaid, i amlygu “yr agwedd meddwl honno sydd ... yn eiddo i chwi yng Nghrist Iesu” (adn. 5). Mewn geiriau eraill, mae'r ‘emyn’ yn ddatliad athrawiaethol ac yn apêl foesebol. Ymhyfrydu yng Nghrist, ac yna mynd ati i wneud fel y gwnaeth ef ydy neges Paul yma.

Ond nid apêl i efelychu Crist ar ein pen ein hunain ac o'n hadnoddau ein hunain mo hon. Yn hytrach, drwy egni ei ras achubol yn gweithio oddi mewn i ni ac yng nghymuned y ffydd, a thrwy gariad y naill at y llall, gallwn ddysgu bod yn debyg iddo. Mae un sylwebydd, Gerald Hawthorne, yn dweud bod awgrym o ffynhonnell y nerth sy'n ein galluogi i gyrraedd at y nod uchel hon yn yr ymadrodd “yng Nghrist Iesu” (adn. 5). “Mae'r alwad i efelychu Crist Iesu”, meddai “yn bosibl drwy nerth y Crist byw, dyrchafedig sy'n bresennol ac ar waith ym mywydau credinwyr drwy waith ei Ysbryd Glân.”

Dydy esiampl Crist ddim yn ddelfryd amhosibl, gan ei bod yn dod law yn llaw â'i allu! Hynny yw, mae Iesu nid yn unig yn codi'r her i uchder bron â bod yn anhygoel, ond mae hefyd yn rhoi'r nerth i ni gyrraedd yr uchder hwnnw. Ein parodrwydd yn unig sydd arno ei angen. Ein parodrwydd ni; ei nerth ef. Felly, peidiwch byth â dweud bod her Duw y tu hwnt i chi; mae'r her y tu hwnt i chi, dim ond os byddwch chi'n amharod i elwa ar ei nerth.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 4:14–22, 31–37; Gal. 5:13–26; Col. 3:1–11

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Drwy ba nerth ac awdurdod yr oedd Iesu'n gweinigogaethu?
2. Sut mae Paul yn disgrifio bywyd yn yr Ysbryd i'r Galatiaid?

Gweddi

O Dad, helpa fi i fwrw f'angor i ddyfnderoedd y datguddiad cysurlon a chalonogol yma. Dwyt ti ddim yn disgwyl i mi ddibynnu ar fy nerth fy hun yn unig er mwyn byw yn ôl dy safonau di, ond i elwa ar dy nerth di. Diolch i ti, fy Nhadau. Amen.